Y POLISI YNGHYLCH CYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD

Ffurfiwyd Grŵp Llandrillo Menai fis Ebrill 2012 yn dilyn uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae gan y Grŵp safleoedd yn siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd ac Ynys Môn, ynghyd â darpariaeth mewn nifer o leoliadau yn y gymuned. Darpara'r Grŵp amrediad eang o addysg a hyfforddiant llawn amser a rhan-amser, ar lefel Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Cyfloga tua 1,552 aelod staff a bydd tua 16,000 o fyfyrwyr yn cofrestru ar ei gyrsiau bob blwyddyn.

Ymdrecha Grŵp Llandrillo Menai i addysgu ei holl staff a'i holl fyfyrwyr ynghylch materion amgylcheddol a chynaliadwyedd, rhai lleol a rhai byd-eang, gan feithrin eu hymwybyddiaeth o'r sefydliad fel asiant amgylcheddol.

Amcanion y Polisi:

Gwneud cynaliadwyedd, yr arferion amgylcheddol gorau a dinasyddiaeth fyd-eang yn rhan o bob agwedd ar fywyd y Coleg.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â phob deddfwriaeth berthnasol a gofynion cydymffurfio ac y mabwysiedir polisïau a fydd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

Hybu ymwybyddiaeth pawb yn y Coleg mewn perthynas â defnyddio ynni a dŵr, gan eu hannog i wneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau hyn.

Defnyddio llai o ddefnyddiau ble bynnag y bo modd, ac ymestyn oes defnyddiau ble bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Ailgylchu neu ailddefnyddio defnyddiau ble bynnag y bo modd a chael gwared ar wastraff yn y ffordd sydd fwyaf caredig i'r amgylchedd.

Sicrhau bod y Coleg yn cael cyn lleied o effaith negyddol â phosibl ar yr amgylchedd lleol a'i fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r gymuned leol a'i hamgylchedd.

Sicrhau bod holl fyfyrwyr a staff y Coleg yn ymwybodol o faterion amgylcheddol, a darparu amrediad o gyrsiau a hyfforddiant ar bynciau perthnasol.

Sicrhau bod yr holl staff a'r holl fyfyrwyr yn ymwybodol o effeithiau trafnidiaeth ar yr amgylchedd, a'u hannog i ddefnyddio dulliau amgen o deithio.

Monitro'n rheolaidd y cynnydd a wneir er mwyn gweld lle gellir gwneud gwelliannau.

Llofnodwyd

D Evans

Dafydd Evans
(C.E.O.)